# Canllaw ar Ocsigen Hylifol




baywater HEALTHCARE SAPIO GROUP

NHS
Providing NHS services

# Cynnwys


Ocsigen Hylifol Meddygol (LOX) **3**

Cyfarpar **4**

Sut i Lenwi eich Fflasg Ocsigen Hylifol Cludadwy **7**

Manylebau'r Fflasg **9**

Byddwch yn Ddiogel **14**

Sut i Ddefnyddio Ocsigen Hylifol **16**

Storio eich Tanc Ocsigen Hylifol Meddygol **18**

Datrys Problemau **21**






ENHANCING LIVES

# Cyflwyniad

Baywater Healthcare sy'n darparu'r offer ocsigen ar gyfer eich cartref. Bydd eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol wedi archebu Ocsigen Hylifol Meddygol ar eich rhan, ac mae'r llyfryn hwn yn egluro sut i'w ddefnyddio'n ddiogel.

# Ocsigen Hylifol Meddygol (LOX)

Mae LOX yn cael ei ddanfon mewn dau gynhwysydd; cynhwysydd mawr o'r enw 'tanc LOX' ac uned gludadwy lai (fflasg) y gellir ei hail-lenwi.

Cofiwch mai dim ond ar y gyfradd llif sydd wedi'i rhoi ar bresgripsiwn gan eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol y dylech chi osod eich LOX.

**Fflasg**





**Tanc LOX**



# Offer

## Caire Low Loss Dewar

Dim ond ar gyfer llenwi unedau cludadwy y mae’r tanc LOX yn cael ei defnyddio. Allwch chi ddim anadlu ocsigen yn uniongyrchol o’r tanc LOX.






**A** Botwm cludadwy
**B** Dangosydd y lefel hylif
**C** Fent
**D** Cysylltydd llenwi
**E** Cronfa

### Gwirio faint o ocsigen sy’n weddill






1. Er mwyn gwirio lefel y LOX yn eich tanc, pwyswch y switsh lefelau am ddwy eiliad cyn gwirio lefel yr hylif sy’n cael ei arddangos. Os mai dim ond 2 neu lai o fariau sy’n goleuo (25%), ffoniwch ein Llinell Gymorth Gofal Iechyd.
2. Os yw’r dangosydd batri isel ar y lefel hylif yn goleuo, dywedwch wrth eich Technegydd Gofal Iechyd.


## Dehas Dewar




**A** Casglwr anwedd
**B** Cysylltydd llenwi
**C** Dangosydd y lefel hylif
**D** Botwm ysgogi

### Gwirio faint o ocsigen sy'n weddill






1. Pwyswch y Botwm 'Activation' ar ddangosydd y lefel hylif. Bydd y goleuadau'n goleuo o'r gwaelod i fyny, yna bydd y goleuadau sy'n dangos lefel yr ocsigen yn aros ymlaen am 5 eiliad. Os mai dim ond 2 neu lai o fariau sy'n goleuo (25%), ffoniwch ein Llinell Gymorth Gofal Iechyd.
2. Os yw'r dangosydd batri isel ar y lefel hylif yn goleuo, dywedwch wrth eich Technegydd Gofal Iechyd.

## Fflasgiau cludadwy y gellir eu hail-lenwi

Dylid llenwi'r fflasg gludadwy drwy ddefnyddio'r tanc LOX mawr.

Fel gyda'r holl offer ocsigen, dylech chi ymgyfarwyddo â rhannau o'r fflasg gludadwy.




Y model a ddangosir yw'r Spirit 600. Mae'n bosibl na fydd eich fflasg yn union yr un fath, ond bydd y rheolyddion yn debyg.

# Sut i Lenwi eich Fflasg Ocsigen Hylifol Gludadwy




Cyn i chi ddechrau llenwi eich fflasg, glanhewch y cysylltydd llenwi ar y tanc a'r fflasg gan ddefnyddio cadach glân. Peidiwch â gwthio cysylltydd llenwi'r tanc i lawr.




Gosodwch y fflasg dros y tanc a sicrhau bod y cysylltwyr llenwi wedi'u halinio'n gywir.




Rhowch eich dwylo ar ben y fflasg a gwthiwch i lawr yn ysgafn i gysylltu'r cysylltwyr llenwi.




Daliwch y fflasg yn ei lle a thynnwch ei lifer llenwi cludadwy i lawr. Caewch y lifer bob 20 eiliad i atal y falf lenwi rhag rhewi. Unwaith y bydd y fflasg yn llawn, byddwch yn sylwi bod y sŵn yn newid. Mae rhai pobl yn cymharu'r sŵn â sŵn tegell yn berwi.




Caewch y lifer llenwi cludadwy drwy ei roi yn ôl ar i fyny.

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)




Pwyswch y botwm rhyddhau ar y tanc. Bydd hyn yn rhyddhau gwasgedd ac yn datgysylltu’r fflasg.

## Gwirio cynnwys eich fflasg

Gallwch chi wirio cynnwys y fflasg drwy ddefnyddio'r dangosydd cynnwys.



Os nad oes dangosydd cynnwys ar eich fflasg, mae’n bosibl y bydd angen i chi ei ddal wrth y strap cynnwys. Mae’r llinell werdd y tu mewn i’r ffenestr yn dangos faint o ocsigen sy’n weddill.




**Yn dibynnu ar y math o fflasg, sylwch y gall y broses o wirio eu cynnwys fod ychydig yn wahanol.**

I gael rhagor o wybodaeth am eich offer, siaradwch â’ch Technegydd Gofal Iechyd neu ffoniwch ein Llinell Gymorth Gofal Iechyd ar 0800 373580.

## Rhybudd

Peidiwch â chyffwrdd y cysylltwyr llenwi ar ôl llenwi’r tanc. Bydd y cysylltwyr yn oer iawn a gallent achosi anaf.



Wrth ei lenwi, mae’n bosibl y bydd y tanc LOX yn rhyddhau stêm. Mae hyn yn normal.

# Manylebau'r Fflasg

## Companion T




### Am ba hyd y mae fflasg Companion T yn para

| Cyfradd llif (lpm) | Llif parhaus |
|---|---|
| 1 | 12 awr |
| 2 | 8 awr 30 munud |
| 3 | 6 awr |
| 4 | 4 awr 15 munud |
| 5 | 3 awr |
| 6 | 2 awr 30 munud |
| 8 | 2 awr |
| 10 | 1 awr 30 munud |
| 15 | 50 munud |

Amseroedd bras yw'r rhain, a gallant newid yn dibynnu ar ba mor gyflym rydych chi'n anadlu.

Peidiwch â gosod y fflasg ar ei hochr ar lawr, gan y bydd hyn yn achosi iddi ollwng.

## Rhodiwr llif uchel



## Hyd y fflasg rhodiwr llif uchel

| Cyfradd llif (lpm) | Llif parhaus |
|---|---|
| 0.5 | 32 awr |
| 1 | 16 awr |
| 2 | 8 awr |
| 2.5 | 6 awr 20 munud |
| 3 | 5 awr 20 munud |
| 4 | 4 awr |
| 6 | 2 awr 40 munud |
| 8 | 2 awr |
| 10 | 1 awr 40 munud |
| 12 | 1 awr 20 munud |
| 15 | 1 awr |

Amseroedd bras yw'r rhain, a gallant newid yn dibynnu ar ba mor gyflym rydych chi'n anadlu.

Peidiwch â gosod y fflasg ar ei hochr ar lawr, gan y bydd hyn yn achosi iddi ollwng.

## Marathon




## Am ba hyd y mae fflasg Marathon yn para

| Cyfradd llif (lpm) | Llif ar alw | Llif parhaus |
|---|---|---|
| 1 | Amh. | 10.5 awr |
| 1.5 | 22.5 awr | Amh. |
| 2 | 18.5 awr | 5.5 awr |
| 2.5 | 16 awr | Amh. |
| 3 | 11.5 awr | 3.5 awr |
| 4 | 9.5 awr | 2.5 awr |
| 5 | Amh. | 2 awr |
| 6 | Amh. | 1.5 awr |

Amseroedd bras yw'r rhain, a gallant newid yn dibynnu ar ba mor gyflym rydych chi'n anadlu.

Os nad oes ocsigen yn llifo ar ôl i chi lenwi'r Marathon, mae'n bosibl eich bod wedi gorlenwi'r tanc. Gosodwch yr uned ar ei hochr ac arhoswch am tua awr i'r uned ddadrewi.

## Helios H300 Plus




## Am ba hyd y mae fflasg Helios yn para

| Cyfradd llif (lpm) | Llif ar alw | Llif parhaus |
|---|---|---|
| 0.12 | Amh. | 15 awr |
| 0.25 | Amh. | 15 awr |
| 0.5 | Amh. | 10 awr |
| 0.75 | Amh. | 6.5 awr |
| 1 | 13 awr | Amh. |
| 1.5 | 12 awr | Amh. |
| 2 | 10 awr | Amh. |
| 2.5 | 8.5 awr | Amh. |
| 3 | 6.5 awr | Amh. |
| 3.5 | 6 awr | Amh. |
| 4 | 5 awr | Amh. |

Amseroedd bras yw'r rhain, a gallant newid yn dibynnu ar ba mor gyflym rydych chi'n anadlu.

## Spirit 600



### Am ba hyd y mae Spirit 600 yn para

| Cyfradd llif (lpm) | Llif ar alw | Llif parhaus |
|---|---|---|
| 1 | 17 awr | Amh. |
| 2 | 17 awr | 4 awr |
| 3 | 12 awr | Amh. |
| 4 | 8 awr | Amh. |
| 5 | 4 awr | Amh. |

Amseroedd bras yw'r rhain, a gallant newid yn dibynnu ar ba mor gyflym rydych chi'n anadlu.

Peidiwch â gosod y fflasg ar ei hochr ar lawr, gan y bydd hyn yn achosi iddi ollwng.

# Byddwch yn Ddiogel

Mae ocsigen yn ddiogel os caiff ei ddefnyddio'n gywir Mae angen i chi ddilyn yr wybodaeth ganlynol am ddiogelwch:

## Llosgiadau oer (cryogenig)

Gall eich croen lynu wrth fetel oer os byddwch yn ei gyffwrdd. Gallai hyn achosi i'r croen rwygo pan fyddwch chi'n ceisio tynnu eich llaw i ffwrdd.

Er mwyn tynnu eich llaw oddi ar y metel, rhowch ddŵr lled gynnes dros eich llaw (ni ddylai tymheredd y dŵr fod yn uwch na thymheredd y corff). Peidiwch â defnyddio gwres sych e.e. sychwr gwallt neu wresogydd trydan.

Os yw eich croen wedi rhewi, mae'n bosibl na fyddwch chi'n teimlo unrhyw boen. Bydd eich llaw troi yn felyn ac yn llawn cwyr.  Wrth i'r croen ddechrau cynhesu, mae'n bosibl y byddwch chi'n teimlo poen. Gofynnwch am gymorth meddygol os bydd hyn yn digwydd.

## Cymorth cyntaf ar gyfer llosgiadau oer

Peidiwch â cheisio tynnu croen sydd wedi rhewi oddi wrth eitemau eraill; gan gynnwys metel neu ddillad.

Llaciwch unrhyw ddillad tynn.

Peidiwch â rhwbio na thylino croen sydd wedi rhewi a pheidiwch â rhoi unrhyw hufennau neu eli arno. Gofynnwch am sylw meddygol cyn gynted â phosibl.

## Risgiau tân

- Wrth ddefnyddio LOX, peidiwch ag ysmygu na gadael i bobl sydd o'ch cwmpas wneud chwaith. Mae ysmygu tra'n defnyddio LOX wedi achosi anafiadau difrifol a gall fod yn angheuol.



- Gwnewch yn siŵr nad oes fflam yn yr ardal lle rydych chi'n defnyddio'ch LOX, oherwydd y gall hyd yn oed y fflam leiaf achosi tân; wrth ddefnyddio'ch LOX, ni ddylid defnyddio offer trydanol sydd â'r gallu i greu sbarcs (gan gynnwys teganau).





# Sut i Ddefnyddio LOX

Mae LOX yn troi'n nwy ocsigen pan gaiff ei anadlu i mewn. Byddwch chi'n cael masg wyneb, darn ceg neu bigynnau trwynol i'w cysylltu â'ch fflasg LOX.

Rhaid defnyddio'r offer LOX yn unol â'r cyfarwyddyd a gawsoch gan y Technegydd Gofal Iechyd a oedd yn gyfrifol am ddanfon yr offer.

Os ydych chi'n defnyddio LOX yn eich cartref, byddwch chi'n cael hyfforddiant llawn ar sut i ddefnyddio'r offer a ddarperir.

Gall eich anghenion clinigol a phersonol gael dylanwad ar yr offer sy'n cael eu rhoi i chi. Bydd eich anghenion yn dylanwadu ar lif yr ocsigen sydd ei angen arnoch chi, yr amser y mae'n rhaid i chi ei ddefnyddio, a phwysau'r fflasg. Gall hyn arwain at newidiadau i'ch offer dros amser. Os bydd eich offer yn newid, bydd eich Technegydd Gofal Iechyd yn egluro'r gwahaniaethau o ran defnydd yn ogystal ag unrhyw newidiadau tebygol o ran pa mor hir y bydd yn para.

## Paratoi i ddefnyddio LOX

- Gwnewch yn siŵr fod y nwy o fewn y dyddiad dod i ben (mae'r dyddiad wedi'i nodi ar y label ar y cynhwysydd) Bydd yr hylif yn anweddu o fewn tua chwe wythnos, ac mae'r dyddiad dod i ben yn adlewyrchu hyn.
- Os oes angen, glanhewch y cynhwysydd gyda dŵr plaen yn unig. Peidiwch â defnyddio hydoddyddion, gan gynnwys eitemau sy'n cynnwys y logo fflamadwy.



- Peidiwch byth â defnyddio saim, olew na chynnyrch tebyg ar unrhyw ran o'r cynhwysydd LOX, neu ar unrhyw offer a ddefnyddir gyda'r cynhwysydd LOX.



- Peidiwch â defnyddio hufenau olew wrth ddefnyddio LOX.
- Cyn trin offer ocsigen, gwnewch yn siŵr bod eich dwylo'n gwbl lân.
- Os ydych chi'n defnyddio jeliau alcohol, gwnewch yn siŵr bod yr holl alcohol wedi anweddu cyn defnyddio offer LOX.
- Cadwch y cynhwysydd LOX ar i fyny bob amser.
- Gwiriwch lefel yr ocsigen hylifol yn y tanc.
- Gwiriwch nad yw'r fflasgiau na'r tanc yn gollwng.


## Ar ôl gorffen

- Dylech chi ddychwelyd eich tanciau gwag atom.
- Os oes gennych chi fflasgiau neu danciau nad oes eu hangen arnoch, dylech chi eu dychwelyd atom.

# Storio eich Tanc Ocsigen Hylifol Meddygol

## Trin a storio eich tanc ocsigen mawr

- Mae eich tanc ocsigen mawr yn cael ei ddiogelu gan ddyfais rhyddhau gwasgedd. Weithiau, bydd y ddyfais yn rhyddhau ocsigen i sicrhau nad oes gormod o wasgedd yn cronni y tu mewn i'r tanc. Wrth i hyn ddigwydd, mae'n bosibl y bydd ager yn dod allan o'r falf rhyddhau gwasgedd (sydd o dan y gorchudd plastig) Swyddogaeth awtomatig yw hon, ac nid oes angen i chi wneud unrhyw beth.



- Peidiwch â gorchuddio top y tanc.
- Dylai eich tanc gael ei storio mewn ardal sydd â llif aer da.
- Peidiwch â storio eich ocsigen hylifol yn agos at eitemau sy'n mynd yn boeth e.e. sychwyr gwallt a gwresogyddion. Gall y rhain achosi i'r tanc ryddhau rhagor o ager, sy'n golygu y bydd y tanc yn gwagio yn gynt.
- Dylid trin eich tanc yn ofalus, ac ni ddylid byth ei ollwng na gadael iddo gwympo drosodd.

## Os bydd y tanc yn gollwng

- Os bydd ocsigen yn gollwng o'r tanc LOX, agorwch ffenestri a drysau i gael llif aer da yn yr ystafell ac i gael gwared ar yr ocsiegn.
- Diffoddwch unrhyw eitemau sy'n mynd yn boeth e.e. poptai, gwresogyddion ac ati.
- Cadwch i ffwrdd oddi wrth y tanc LOX.

## Trin a storio eich fflasg ocsigen gludadwy




- Peidiwch byth â defnyddio eich fflasg LOX gludadwy o dan ddillad.
- Os byddwch yn cario eich fflasg LOX cludadwy mewn bag, rhaid i'r bag gael ei wneud o ddeunydd priodol sy'n darparu llif digonol o aer.
- Er mwyn atal unrhyw ocsigen diangen rhag cronni yn yr aer, mae'n bwysig diffodd eich fflasg LOX gludadwy pan nad yw'n cael ei defnyddio.

**Nodyn**
Mae'n normal i fflasg ocsigen gludadwy ryddhau tarth ocsigen o bryd i'w gilydd. Bydd y rhan fwyaf o fflasgiau yn hollol wag o fewn 24 awr, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu defnyddio.

## Cludo offer ocsigen

Wrth gludo offer ocsigen, dilynwch y cyngor canlynol:

- Rhowch wybod i'ch cwmni yswiriant y byddwch chi'n cario ocsigen (gweler y Canllaw Ocsigen)



Gwnewch yn siŵr bod y fflasg yn ddiogel drwy ei strapio a'i hongian y tu ôl i'r sedd flaen.



Peidiwch byth â chludo fflasgiau ar garpedi neu seddi car



Peidiwch byth â defnyddio ocsigen mewn gorsaf betrol, a pheidiwch byth ag ysmygu tra bod ocsigen yn cael ei ddefnyddio yn y car.

## Trafnidiaeth gyhoeddus

Gallwch chi fynd â'ch fflasg ocsigen gludadwy gyda chi ar drafnidiaeth gyhoeddus, ond bydd gan gwmnïau reolau a rheoliadau gwahanol. Trafodwch gyda'ch cwmni trafnidiaeth cyn teithio. Mae'n bosibl y gall y swyddfa ddeddfwriaeth tacsis yn eich cyngor lleol gynnig cyngor os ydych chi'n cael problemau wrth deithio gyda'ch ocsigen mewn tacsi.



Gwnewch yn siŵr bod y cynhwysydd yn ddiogel pan fyddwch chi'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

# Datrys problemau

## Tanciau

### Mesurydd lefel hylif yn ymddangos yn anghywir neu'n fflachio

Mae'n bosibl bod angen newid y batri neu fod rhywfaint o anwedd wedi mynd i mewn i'r mesurydd. Rhowch wybod i'r Technegydd Gofal Iechyd y tro nesaf y bydd yn dod draw i gyfnewid y tanc.

### Coil y tanc wedi rhewi

Mae hyn yn arferol wrth lenwi fflasgiau cludadwy. Os yw coil y tanc yn dal i fod wedi rhewi ar ôl i chi ei lenwi, cysylltwch â ni.

### Ochr y tanc wedi rhewi

Cysylltwch â ni.

### Hylif Ocsigen yn diferu o'r man llenwi

Mae'n bosibl bod y cysylltydd llenwi wedi rhewi ac ar agor. Os oes modd, agorwch y ffenestri er mwyn awyru'r ystafell a gadewch yr ardal ar unwaith. Cysylltwch â ni.

I atal hylif rhag llifo allan, sychwch ffroenell yr allfa gyda chadach sych cyn ac ar ôl llenwi'r fflasg gludadwy.

### Sŵn hisian yn dod o'r tanc

Yn ystod defnydd arferol, mae'r falf ollwng yn agor o bryd i'w gilydd i leddfu'r gwasgedd; yn enwedig ar ôl i'r fflasg gludadwy gael ei llenwi. Os bydd y sŵn hisian yn parhau, gallai hyn awgrymu bod y tanc yn gollwng. Ffoniwch ni os nad yw'r sŵn hisian yn tawelu o fewn 10 munud, neu os yw'r sŵn hisian yn uchel.

# Fflasgiau cludadwy

## Y fflasg gludadwy yn gwneud sŵn hisian

Gall yr hisian ddigwydd er mwyn cynnal y gwasgedd cywir y tu mewn i'r fflasg. Mae'r sŵn hisian yn fwyaf tebygol o ddigwydd ar ôl i'r fflasg gael ei llenwi neu ei symud. Gall y sŵn hisian bara am tua 10 munud ar ôl i'r tanc gael ei lenwi. Gall ddigwydd pan fydd y falf rheoli llif ar osodiad isel. Os yw'r fflasg gludadwy wedi'i gosod mewn safle amhriodol, rhowch y fflasg ar i fyny a rhoi munud neu ddau i'r uned setlo.

## Y llif yn stopio wrth ei ddefnyddio

Sicrhewch fod y pigynnau trwynol wedi'u cysylltu'n iawn â'r allfa ocsigen, ac nad yw'r tiwb wedi plygu. Gwiriwch y dangosydd cynnwys a llenwch y fflasg gludadwy os oes angen. Gwnewch yn siŵr nad yw'r rheolydd llif wedi'i ddiffodd (O).

## Nid yw falf y fent ar y fflasg yn cau'n iawn ar ôl llenwi'r tanc

Os na fydd falf y fent yn cau, a bod y sŵn hisian a'r cwmwl ocsigen yn parhau, tynnwch y fflasg gludadwy yn ofalus drwy bwyso'r botwm rhyddhau ar y tanc. Bydd y stêm a ddaw o waelod y fflasg gludadwy yn stopio ar ôl ychydig funudau. Gadewch i'r fflasg gynhesu nes y gallwch gau falf y fent. Mae'n bosibl y bydd angen hyd at 60 munud ar y fflasg gludadwy i greu digon o wasgedd i ganiatáu i'r ocsigen lifo'n iawn.

## Nid yw'r fflasg gludadwy yn rhyddhau o'r tanc

Mae'n bosibl bod cysylltydd llenwi'r tanc a'r fflasg gludadwy wedi rhewi. PEIDIWCH Â DEFNYDDIO GRYM. Gadewch i'r darnau gynhesu am ychydig funudau. Yna, pwyswch y botwm portable release er mwyn tynnu'r fflasg gludadwy. I atal y fflasg a'r tanc rhag rhewi gyda'i gilydd, dylech chi lanhau'r cysylltydd llenwi ar y tanc a'r fflasg gludadwy gyda chadach glân a sych cyn eu defnyddio.

# Nodiadau



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Baywater Healthcare**
Wulvern House
Electra Way
Crewe
Cheshire
CW1 6GW

Ffoniwch: 0800 373580

healthuk@baywater.co.uk
@BaywaterHealth
Baywater Healthcare
Baywater Healthcare


baywater HEALTHCARE SAPIO GROUP

ENHANCING LIVES

This leaflet is also available in English

24/749/UK-MAY26 v2